

Egwyddorion ar gyfer recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru

- Set o egwyddorion y cytunwyd arnynt gan bob prifysgol yng Nghymru sy'n recriwtio'n rhyngwladol.
- Mae'r egwyddorion yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol: sut y gallwn ni hyrwyddo arferion recriwtio moesegol a chynaliadwy, a sut y gallwn ni sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant yn astudio gyda ni.
- Fel rhan o gytuno ar yr egwyddorion hyn, mae holl brifysgolion Cymru wedi ymrwymo'n ffurfiol i'r [Fframwaith Ansawdd y DU ar gyfer Asiantau](#).

Rhagarweiniad

Mae myfyrwyr rhyngwladol yn aelodau gwerthfawr o'n campysau a'n cymunedau. Trwy eu cyfraniadau mewn astudiaethau ac ymchwil, mae myfyrwyr rhyngwladol yn sicrhau bod ein prifysgolion yn parhau i fod ag ymagweddiad byd-eang, ac maent yn dod â buddion cymdeithasol ac economaidd i gymunedau ledled Cymru. Trwy dreulio eu hamser yng Nghymru, maent yn cyfoethogi gwead ein cymdeithas, yn rhannu eu profiadau eu hunain, ac yn cryfhau ein cysylltiadau â gwledydd ledled y byd.

Wrth astudio gyda ni maent yn dod i adnabod Cymru, ei phobl a'i lleoedd, ac yn cario'r ymdeimlad hwnnw o leoliad gyda nhw drwy gydol eu hoes.

Mae prifysgolion yng Nghymru eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y rhai sy'n dewis dod i astudio yng Nghymru'n teimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi; hefyd eu bod yn cael y cyngor, yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt cyn iddynt ymuno â ni a thra byddant yma.

I'r perwyl hwn, rydym wedi datblygu'r set hon o egwyddorion sy'n amlinellu rhai o'r amryw ffyrdd y bydd prifysgolion yn cefnogi ein myfyrwyr rhyngwladol.

Mae'n bwysig cofio nad yw'r hyn a nodir yma o bell ffordd yn ddarlun cyflawn o'r hyn y mae ein prifysgolion yn ei wneud. Mae prifysgolion Cymru'n cael eu rheoleiddio gan CCAUC, mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion visas a mewnfudo'r DU (UKVI) wrth recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, a rhaid iddynt i gyd ymwneud ag adolygiadau gwella ansawdd rheolaidd.

Yn ogystal â hyn, mae prifysgolion yn cynnig ystod eang o wasanaethau cymorth, gan y sefydliad ac undeb y myfyrwyr, y gall myfyrwyr rhyngwladol gael mynediad iddynt gan gynnwys cymorth llesiant, cyngor ariannol a chymorth academaidd.

Ein huchelgais yw sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael cyn i'r angen amdano godi ond, pan nad yw hyn yn bosibl, mae gennym hefyd y strwythurau a'r modd i atgyfeirio sydd eu hangen i gael gwared ar rwystrau a chynnig help i fyfyrwyr ar yr adeg y mae arnynt ei angen.

Egwyddorion ar gyfer recriwtio myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru

Mae'r egwyddorion hyn yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol: sut y gallwn ni hyrwyddo arferion recriwtio moesegol a chynaliadwy, a sut y gallwn ni sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant yn astudio gyda ni.

Bydd prifysgolion yng Nghymru'n:

1. Cydymffurfio â [Fframwaith Ansawdd y DU ar gyfer Asiantau gan gynnwys y Canllaw Arfer Da i Ddarparwyr sy'n Defnyddio Asiantau Addysg](#).
2. Ymrwmo i weithio gydag asiantau sydd wedi bod trwy brosesau recriwtio, cymeradwyo a derbyn priodol yn unig. Bydd prifysgolion Cymru'n disgwyl i asiantau hefyd ymgysylltu â'r canlynol: canllawiau Cymdeithas Gydlynw Rhyngwladol Prifysgolion y DU (BUILA) i asiantau; hyfforddiant, diweddariadau a gwybodaeth a ddarperir gan eu prifysgolion partner yng Nghymru; ac, os yw'n briodol, cwblhau cymhwyster asiant addysg sy'n ymwneud â'r DU.
3. Sicrhau bod gan bob asiant gytundeb wedi'i lofnodi sy'n gosod allan disgwyliadau a gofynion.

4. Byddai defnyddio blaendaliadau pan fyddwch yn gwneud hynny'n lliniaru risg¹. Dim ond un o'r gwiriadau cyn-cyrraedd y bydd prifysgolion yn eu defnyddio fydd hwn.
5. Gweithio gyda phartneriaid mewn cymunedau i sicrhau, mewn achosion ble mae myfyrwyr rhyngwladol yn cael problemau ond heb gael mynediad at gymorth gan y brifysgol, y gallant gael eu cyfeirio'n ôl at y brifysgol yn y lle cyntaf.
6. Cynnal deialog ag awdurdodau lleol i helpu ag asesu'r gofynion ar wasanaethau cyhoeddus. Ar y cyd ag awdurdodau lleol, byddwn yn ymchwilio i'r potensial i nodi pwy yw'r cysylltiadau a enwir ar gyfer cynorthwyo âg ymgysylltu o'r fath.
7. Sicrhau bod gwybodaeth ac arweiniad yn dwyn sylw myfyrwyr rhyngwladol at y cymorth sydd ar gael iddynt gan y brifysgol yn ogystal â pha gamau y dylent eu cymryd cyn cyrraedd. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu cyn gadael i sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r angen i drefnu llety ac unrhyw gostau cysylltiedig.
8. Darparu cyngor ac arweiniad clir i fyfyrwyr ynghylch dod o hyd i lety a sicrhau ei fod ar gael iddynt.
9. Adolygu systemau gwybodaeth a chynghori i fonitro effeithiolrwydd.

Adolygiad

Mae'r egwyddorion hyn wedi'u cytuno trwy Rwydwaith Rhyngwladol Prifysgolion Cymru sy'n cyfarfod bob chwarter i rannu gwybodaeth ac arferion, yn ogystal â thrafod materion polisi rhyngwladol.

Fel rhan o'r cyfarfodydd rheolaidd hyn, bydd effeithiolrwydd a phriodoldeb yr egwyddorion hyn yn cael eu hadolygu gyda'r grŵp yn flynyddol, fel arfer yn nhymor yr haf.

Mwy o wybodaeth

¹ Er enghraifft, bydd defnyddio dull seiliedig ar risg ar gyfer blaendaliadau yn golygu, mewn rhai achosion, efallai y bydd angen talu'r ffi lawn cyn cadarnhau y caiff yr unigolyn ei dderbyn i astudio (CAS).

Mae'r isod yn rhoi cyd-destun a chefnidir pellach ynghylch y mathau o ddulliau gweithredu y bydd prifysgolion Cymru yn ymgymryd â hwy.

[Fframwaith Ansawdd y DU ar gyfer Asiantau](#)

Dan arweiniad ar y cyd gan y Cyngor Prydeinig, BUILA, UKCISA ac UUKI, sefydlwyd Fframwaith Ansawdd y DU ar gyfer Asiantau yn dilyn ymchwil helaeth gyda myfyrwyr, darparwyr addysg, cynghorwyr addysg ac asiantau.

Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i wella'r bartneriaeth rhwng sector addysg y DU ac asiantau a chwyselwyr, ac i gydnabod a rhannu arfer gorau.

[Hyfforddiant Asiantau a Chynghorwyr y DU](#)

Mae hyfforddiant asiantau a chwyselwyr y DU yn rhaglen hyfforddiant, a ddarperir gan y Cyngor Prydeinig, ar gyfer pob asiant a chwmselydd sy'n gweithio gyda darparwyr addysg yn y DU.

Mae cwblhau'r rhaglen hyfforddiant yn llwyddiannus yn rhoi gwybodaeth fanwl i asiantau a chwyselwyr unigol am system addysg y DU a sut i gynghori myfyrwyr yn effeithiol.